



11 May 2023

Dear Fellow

**Annual General Meeting, 24 May 2023**

The Learned Society of Wales Annual General Meeting will take place at 9.30am on Wednesday 24th May 2023.

For the first time, the Society will be hosting a hybrid AGM. This will allow Fellows to attend in person at Cardiff University or join us online. You can **register for either joining option for the AGM** [here](#).

If you are joining online and need any assistance in setting up Zoom, please contact me at [akirk@lsw.wales.ac.uk](mailto:akirk@lsw.wales.ac.uk).

To view the Agenda and Papers for the meeting, please click [here](#).

If you are unable to attend the AGM and would like to vote by proxy, please click the link below to complete your Proxy form by 4.00pm on Monday 22 May.

<https://www.smartsurvey.co.uk/s/TXSHVL/>

Yours Sincerely

Amanda Kirk  
**Clerc i'r Cyngor/ Clerk to Council**  
akirk@lsw.wales.ac.uk  
(029) 2037 5054



11 Mai 2023

Annwyl Gymrawd

### Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, 24 Mai 2023

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cymdeithas Ddysgedig Cymru dydd Mercher, 24 Mai 2023 am 9.30am.

Am y tro cyntaf, bydd y Gymdeithas yn cynnal AGM hybrid. Bydd hyn yn caniatáu i Gymrodryr fynychu'n bersonol neu ymuno â ni ar-lein os nad ydynt yn gallu mynychu'n bersonol. **Gallwch gofrestru am y naill opsiwn neu'r llall ar gyfer y CCB [yma](#).**

Os oes angen unrhyw gymorth arnoch chi i sefydlu Zoom, cysylltwch â fi: [akirk@lsw.wales.ac.uk](mailto:akirk@lsw.wales.ac.uk).

I weld yr Agenda a Phapurau'r cyfarfod, cliciwch [yma](#).

Os na allwch chi ddod i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ond yn dymuno pleidleisio drwy brocsi, cliciwch y ddolen isod i gwblhau eich ffurflen Procsi erbyn 4.00pm ddydd Llun 22 Mai.

<https://www.smartsurvey.co.uk/s/TXSHVL/>

Yn gywir

Amanda Kirk  
**Clerc i'r Cyngor**  
Akirk@cddc.cymru.ac.uk  
(029) 2037 5054



## Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol / Annual General Meeting

24 May/Mai 2023, 09.30 – 11.30

### Agenda

1	<b>Croeso a Chyflwyniad</b> Yr Athro Hywel Thomas, Llywydd  Teyrnged i Gymrodyr y gorffennol	<b>Welcome and Introduction</b> Professor Hywel Thomas, President  Tribute to past Fellows	ar lafar / oral <b>(7 mins)</b>
2	<b>Ymddiheuriadau am absenoldeb</b>	<b>Apologies for absence</b>	ar lafar / oral <b>(1 min)</b>
3	<b>Cofnodion y Cyfarfod Blynnyddol Cyffredinol a gynhaliwyd ar 25 Mai 2022</b>	<b>Minutes of the Annual General Meeting held on 25 May 2022</b>	(ynghlwm / attached) <b>(5 mins)</b>
4	<b>Cyflwyniad i Gymrodyr Anrhydeddus</b> Yr Athro Helen Fulton, Is-Lywydd – Dyniaethau, Celfyddydau a Gwyddorau Cymdeithasol	<b>Introduction to Honorary Fellows</b>  Professor Helen Fulton, Vice-President for Humanities, Arts and Social Sciences  <b>A short address</b> Baroness Brown	CCB/2023/01 AGM/2023/01 <b>Intro 2 mins</b>  <b>5 mins</b>
5	<b>Uchafbwyntiau'r flwyddyn</b> Olivia Harrison, Prif Weithredwr	<b>Highlights of the Year</b> Olivia Harrison, Chief Executive	ar lafar / oral <b>(15 Mins)</b>
6	<b>Trosolwg o waith y Gymdeithas ar Strategaethau Arloesi i Gymru</b> Yr Athro Rick Delbridge, Cynghorydd Arbennig ar Ymchwil ac Arloesi	<b>Overview of the Society's work on Innovation Strategies for Wales</b> Professor Rick Delbridge, Special adviser for Research & Innovation	ar lafar / oral <b>(10 Mins)</b>
7	<b>Anrhydeddau, Gwobrau a dyfarniadau</b> Chyflawniadau Cymrodyr Yr Athro Hywel Thomas, Llywydd	<b>Honours, Prizes and Awards</b> Fellows' achievements Professor Hywel Thomas, President	AGM/2023/02 CCB/2023/02 <b>(8 Min)</b>
8	<b>Materion Llywodraethol</b> (a) Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon 2020/21 a Penodi Arholwyr Annibynnol  Yr Athro Terry Threadgold, Trysorydd	<b>Governance Matters</b> (a) 2021/22 Annual Report and Accounts and Appointment of Independent Examiners  Professor Terry Threadgold, Treasurer	CCB/2023/03 AGM/2023/03 <b>(8 mins)</b>

	(b) Swyddogion, Cyngor a Phwyllgorau: Aelodau sydd wedi gadael ac aelodau newydd  Yr Athro Alan Shore, Ysgrifennydd Cyffredinol	(b) Officers, Council and Committees: Outgoing and new members  Professor Alan Shore, General Secretary	CCB/2023/04 AGM/2023/04 <b>(8 mins)</b>
9	<b>Cyflwyniad i Gymrodryr Anrhydeddus</b> Yr Athro Helen Fulton, Is-Lywydd – Dyniaethau, Celfyddydau a Gwyddorau Cymdeithasol  Yr Athro Hannah Fry	<b>Introduction to Honorary Fellows</b>  Professor Helen Fulton, Vice-President for Humanities, Arts and Social Sciences  Professor Hannah Fry	CCB/2023/01 AGM/2023/01 <b>Intro 2 mins</b>  <b>5 mins</b>
10	<b>Lansio strategaeth newydd y Gymdeithas 2023 - 2028</b> Olivia Harrison, Prif Weithredwr	<b>Launch of the Society's New Strategy 2023 – 2028</b> Olivia Harrison, Chief Executive	ar lafar / oral <b>(10 mins)</b>
11	<b>Ethol Cymrodryr newydd, 2022/23 a Croesawu a Chyflwyno Cymrodryr yn Ffurfiol</b> Yr Athro Michael Charlton, Is-Lywydd – Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg, Mathemateg a Meddygaeth	<b>Election of new Fellows, 2022/23 and the Formal Welcome and Introduction of Fellows</b> Professor Michael Charlton, Vice-President for Science, Technology, Engineering, Mathematics and Medicine	CCB/2023/01 AGM/2023/01 <b>(approx. 20 mins)</b>
12	<b>Anerchiad Blynyddol gan y Llywydd</b>	<b>President's Annual Address</b>	ar lafar / oral <b>(10 Mins)</b>
13	<b>Dyddiad y Cyfarfod nesaf</b> Dydd Mercher 22 Mai 2024	<b>Date of Next Meeting</b> Wednesday 22 May 2024	ar lafar / oral <b>(1 Min)</b>
			<b>Total: 123 mins</b>



# THE LEARNED SOCIETY OF WALES CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU

THE NATIONAL ACADEMY – CELEBRATING SCHOLARSHIP AND SERVING THE NATION  
YR ACADEMI GENEDLAETHOL – YN DATHLU YSGOLHEICTOD A GWASANAETHU'R GENEDL

## COFNODION DEG FED CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL Y GYMDEITHAS A GYNHALIWDY DRWY GYNHADLEDD FIDEO AR DDYDD MERCHER, 25 MAI 2022

<p><b>Yn bresennol:</b></p> <p>Yr Athro Hywel Thomas Yr Athro Michael Charlton Yr Athro Helen Fulton Yr Athro Terry Threadgold Yr Athro Alan Shore</p> <p>Mr Jonathan Adams Yr Athro Roger Awan-Scully Yr Athro Duncan Baird Yr Athro David Beerling Dr Carol Bell Yr Athro Richard Bevins Mr Charles Burton Yr Athro Elaine Crooks Yr Athro Sioned Davies Yr Athro Ceri Davies Yr Athro Siwan Davies Yr Athro Richard Day Dr Rob Deaves Yr Athro Shareen Doak Yr Athro Stefan Doerr Yr Athro Iain Donnison Yr Athro Edwin Egede Yr Athro Martina Feilzer Yr Athro Tess Fitzpatrick Dr Robin Gwyndaf Yr Athro Manu Hadda Yr Athro Peter Halligan Yr Athro Kamila Hawthorne Yr Athro Ann Heilmann Yr Athro Trevor Herbert Yr Athro Mererid Hopwood Yr Athro Ifan Hughes Dame Sue Ion Yr Athro Uzo Iwobi OBE Dr Layla Jayder Yr Athro Julian Jenkins Syr Karl Jenkins Yr Athro Geraint Jewell Dr Hywel Ceri Jones</p>	<p><i>(Llywydd)</i> <i>(Is-lywydd)</i> <i>(Is-lywydd)</i> <i>(Trysorydd)</i> <i>(Ysgrifennydd Cyffredinol)</i></p> <p>Yr Athro Rhys Jones Yr Athro Mari Jones Yr Athro Trevor Jones Yr Athro Yvonne Jones Syr Emyr Jones Parry Yr Athro Harshinie Karunaratna Yr Athro Peter Knowles Dr Anju Kumar Yr Athro Bill Lee Yr Athro Dewi Lewis Syr David Lloyd Jones Mr Pedr ap Llwyd Yr Athro Marian Ludgate Yr Athro Julie Lydon Yr Athro Gennady Mishuris Yr Athro Faron Moller Yr Athro Kathryn Monk Mr Steve Morris Yr Athro Max Munday Yr Athro Helen Nicholson Yr Athro Perumal Nithiarasu Yr Athro Ruth Northway Yr Athro Katherine Leni Oglesby Yr Athro Olivette Otele Yr Athro Duc Pham Yr Athro Ceri Phillips Yr Athro Ryszard Piotrowicz Yr Athro Loredana Polezzi Yr Athro Eleri Prys Yr Athro David Ian Rabey Yr Athro Dipak Ramji Yr Athro Dominic Reeve Yr Athro Geoff Richards Yr Athro Andrew Rowley</p>	<p>Yr Athro Karl Schmidt Yr Athro Bettina Schmidt Yr Athro Bernard Schutz Yr Athro Qiang Shen Dr Hamsaraj Shetty Yr Athro Keith Smit Yr Athro Steve Smith Yr Athro Helen Stokes-Lampard Yr Athro Jean Thomas Yr Athro John V Tucker Y Parchedig Athro John Tudno Williams Yr Athro Carol Tully Yr Athro Meena Upadhyaya Yr Athro Marcela Votruba Yr Athro Diana Wallace Dr Eryn White Yr Athro Howard Williams Yr Athro Julie Williams Ms Nia Williams Yr Athro Robin Williams Yr Athro Colin Williams Yr Athro Chris Williams Dr Goronwy Wynne Dr Rowland Wynne Dr Emma Yhnell Yr Athro Reyer Zwigelaar</p>
---	---	--

## **Mynychu drwy ddirprwy:**

Yr Athro Michael Bowker	Yr Athro Alma Harris	Yr Athro Judith Eleri Phillips
Yr Athro Keith Burnett	Yr Athro Angela V John	Yr Athro Christopher Pollock
Yr Athro Hazel Carby	Yr Athro Venkateswarlu Kanamarlapudi	Yr Athro Sally Power
Yr Athro Simon Cox	Yr Athro Hilary Lapin-Scott	Yr Athro Bryan Randell
Yr Athro Michael Davies	Yr Athro John Lazurus	Yr Athro David N Thomas
Dr Cameron Durrant	Yr Athro Mark Lee	Syr Keith Thomas
Yr Athro Roger Falconer	Yr Athro Gennady Mishuris	Yr Athro Lynda Warren
Yr Athro Thomas Anthony Ford	Dr Sue Niebrzydowski	Dr. Lynn William
Yr Athro Ralph Griffiths	Syr John o'Reilly	Yr Athro Susan Wong
Yr Athro John Harper	Yr Athro J Ormerod	

## **Yn bresennol:**

Ms Olivia Harrison	<i>(Prif Weithredwr)</i>
Dr Sarah Morse	<i>(Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus)</i>
Mrs Amanda Kirk	<i>(Clerc y Cyngor)</i>
Mr Joe Boyle	<i>(Swyddog Cyfathrebu)</i>
Mrs Fiona Gaskell	<i>(Swyddog y Gymrodoriaeth)</i>
Ms Janice Gillian	<i>(Swyddog Cyllid)</i>
Dr Barbara Ibinarriaga Soltero	<i>(Swyddog Rhaglen, Datblygu Ymchwilwyr)</i>
Mrs Cathy Streamer	<i>(Rheolwr Rhaglen, Datblygu Ymchwilwyr)</i>
Ms Nerys Hurford	<i>(Cyfieithydd)</i>

## **Dechreuodd y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol am 2.30 p.m.**

### **1. Croeso a Chyflwyniad gan Lywydd y Gymdeithas**

Croesawodd y Llywydd y Cymrodyr oedd yn bresennol, yn arbennig Cymrodyr oedd newydd eu hethol, i ddeuddegfed Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol y Gymdeithas, gan ddiolch iddynt am eu presenoldeb, a chynghorodd Gymrodyr bod croeso iddynt annerch y cyfarfod yn Gymraeg neu Saesneg.

Croesawodd y Llywydd Olivia Harrison, a oedd wedi ei phenodi'n Brif Weithredwr newydd y Gymdeithas.

Croesawodd y Llywydd Nerys Hurford, a fyddai'n darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, a mynegodd ei ddiolch i'r cyfieithydd ar y pryd.

Nododd y Llywydd farwolaethau'r Cymrodyr Syr Dai Rees, Syr Ronald Mason, yr Athro Malcom Brown a'r Athro Kenneth Walters, a threuliodd y Cymrodyr funud o dawelwch er cof amdanynt.

### **2. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Roedd 18 o ymddiheuriadau wedi cael eu derbyn, a fyddai'n cael eu rhestru fel atodiad i gofnodion y cyfarfod.

### **3. Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol a gynhaliwyd ar 19 Mai 2021**

**CAFODD, NODODD A PHENDERFYNNODD** yr Aelodau **GYMERADWYO** Cofnodion degfed Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gymdeithas a gynhaliwyd ar 19 Mai 2021. Bydd y cofnodion yn cael eu llofnodi gan y Llywydd ar y cyfle cyntaf.

#### **4. Cyhoeddi'r Cymrawd Anrhydeddus Newydd, Y Farwnes Brown**

Nododd yr Athro Michael Charlton, yn anffodus, fod y Farwnes Brown wedi cael ei gorfodi i dynnu allan o'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar y funud olaf, ac na fyddai'n gallu ymuno â'r cyfarfod a nododd:

Bod y Farwnes Brown o Gaergrawnt, yr Athro Julia King, yn beiriannydd Prydeinig a oedd wedi cyrraedd brig ei phroffesiwn ac a oedd yn hynod ddylanwadol erbyn hyn.

Ar ôl graddio o Brifysgol Caergrawnt, treuliodd ei gyrfa gynnar yn Rolls Royce, lle bu'n gweithio ar aloion sy'n gwrthsefyll blinder ar gyfer aerobeiriannau, a arweiniodd at ddatblygu awyrennau mwy diogel ac effeithlon. Yna, symudodd i'r byd academiaidd, gan ymgymryd â rôl Deon Gweithredol ar gyfer y Gyfadran Peirianeg yng Ngholeg Imperial. Wedi hynny, cafodd ei phenodi'n Is-ganghellor Prifysgol Aston, swydd y cyflawnodd hi gyda llwyddiant mawr. Yn ystod y cyfnod hwn, bu hefyd yn cadeirio'r adroddiad King Review of Low Carbon Cars (2008).

Roedd ei llwyddiannau wedi cael eu cydnabod gan sawl gwobr, sef FREng, FRS, DBE, gan gynnwys ei dyrchafiad i Dŷ'r Arglwyddi fel Meinciwr Croes.

Roedd hi'n arbennig o adnabyddus am ei gwaith ar yr Agenda Newid Hinsawdd, a bu'n Gadeirydd Pwyllgor Addasu Newid Hinsawdd y DU.

Nododd yr Athro Charlton fod y Gymdeithas yn croesawu'r Farwnes Brown i'r Gymdeithas, ac yn edrych ymlaen at ei chyfarfod.

#### **5a. Materion Llywodraethu**

##### **Yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol, 2020/21 a Phenodi Archwilwyr Annibynnol**

Cyflwynodd y Trysorydd bapur AGM/2022/02, yr Adolygiad Blynyddol, yr Adroddiad a Chyfrifon y Gymdeithas am y cyfnod rhwng 1 Awst 2020 a 31 Gorffennaf 2021, a nododd y gallai'r cyfrifon llawn gael eu hadolygu ar wefan y Gymdeithas.

Nododd y Trysorydd fod y Gymdeithas yn parhau'n ddiolchgar i bob Prifysgol yng Nghymru sy'n parhau i ddarparu cyllid anghyfyngedig i'r Gymdeithas, gan gynnwys y rhodd hael o wasanaethau pro-bono. Heb eu cefnogaeth, ni fyddai'r Gymdeithas yn gallu gweithredu.

Estynnodd y Trysorydd ddiolch i bob Cymrawd am eu cyfraniad drwy danysgrifio, yn enwedig y rheiny sy'n rhoi rhoddion ychwanegol. Roedd y Gymdeithas yn ddiolchgar i'r holl Gymrodyr hynny a ganiataodd i GiftAid gael ei hawlio yn erbyn eu tanysgrifiad. Trwy gofrestru ar gyfer GiftAid, cynyddodd Cymrodyr cymwys werth eu tanysgrifiad 25%.

Roedd y Gymdeithas yn falch o gael y grant cyntaf gan CCAUC yn 2020-21, ac yn gobeithio y byddai hyn yn datblygu i fod yn gytundeb ariannu amlflwyddyn gyda chymorth y Prif Weithredwr.

Yr all daliad mwyaf oedd cyflogau'r tîm staff sy'n cefnogi'r gwaith yr oedd y Gymdeithas yn ei wneud. Arhosodd cyllid y Gymdeithas yn iach, doedd dim gwariant annisgwyl, ac roedd y Gymdeithas wedi cario gwarged bach drosodd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Parhaodd y Gymdeithas i gynnal digon o gronfeydd wrth gefn i fodloni'r polisi wrth gefn ac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd £290,000 wedi'i fuddsoddi yng nghronfa datblygu strategol y Gymdeithas.

Roedd Is-ddeddfau a Rheoliadau'r Gymdeithas yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyfrifon archwiliedig a'r adroddiad blynyddol gael eu cyflwyno yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Gwahoddwyd Cymrodyr i dderbyn yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon am y cyfnod 1 Awst 2020 i 31 Gorffennaf 2021 (degfed cyfnod cyfrifo'r Gymdeithas).

Gofynnwyd i'r Trysorydd a oedd 6 mis o gostau gweithredu yn ddigonol ar gyfer cronfeydd wrth gefn y Gymdeithas, a chytunodd i adolygu lefel y cronfeydd wrth gefn yn y flwyddyn i ddod.

Gofynnwyd i'r Trysorydd a fyddai'r Gymdeithas yn derbyn mwy o arian gan CCAUC, a chynghorodd bod y Gymdeithas eisoes wedi derbyn mwy o gyllid, ond roedd hyn yn rhan o flwyddyn ariannol 2021/22, a byddai'r Prif Weithredwr yn trafod hynny yn ddiweddarach yn y cyfarfod.

Penderfynodd yr Aelodau i dderbyn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Gymdeithas ar gyfer 2020-2021.

Nododd y Trysorydd fanylion y cynghorwyr ariannol annibynnol oedd wedi cydweithio â'r Gymdeithas dros y blynyddoedd diwethaf.

Roedd Azets wedi adolygu cyfrifon y Gymdeithas, ac roedd y Gymdeithas yn falch o gynghori nad oedd unrhyw faterion na meysydd oedd yn peri pryder.

Roedd y Gymdeithas wedi bod yn hapus gyda lefel y gwasanaeth oedd yn cael ei gynnig, ac fe fyddai'n croesawu'r cyfle i barhau i weithio gydag Azets.

Penderfynodd y Cymrodyr gymeradwyo penodi Azets, yr arholwyr annibynnol.

**CAFODD** a **NODODD** yr aelodau bapur AGM/2022/02, Materion Llywodraethu, yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, 2020/21 a Phenodi Arholwyr Annibynnol.

Nododd y Trysorydd fod Janice Gillian yn ymddeol o'r Gymdeithas, ac estynnodd ddiolch iddi am ei holl waith anhygoel dros y Gymdeithas.

Roedd Janice yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr gan y staff a'r tîm Gweithredol, ac roedd wedi cefnogi tri Thrysorydd. Roedd pob un yn ddiolchgar am ei chwmsler doeth, ei phen clir, ei sylw manwl i fanylion ac yn fwy na dim, am ei natur gynnes a chefnogol. Roedd hi wedi gwneud cyfraniad gwirioneddol i'r tîm staff ac i gyllid y gymdeithas.

Byddai Janice yn cael ei cholli, ond roedd y tîm yn dymuno'n dda iddi yn ei hymddeoliad.

## **5b. Materion Llywodraethu**

### **Swyddogion, y Cyngor a Phwyllgorau: Aelodau hen a newydd**

Ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol ei ddiolch i Janice Gillian am ei holl gefnogaeth.



Cyflwynodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol bapur (AGM/2022/03) i hysbysu Cymrodyr am:

- Offerynnau Llywodraethol y Gymdeithas (Siarter Frenhinol, Is-ddeddfau a Rheoliadau), yn enwedig y rhai oedd yn ymwneud â chynnal Cyfarfodydd Cyffredinol Blyneddol a Chyfarfodydd Cyffredinol eraill
- ganlyniad ethol swyddogion ac aelodau'r Cyngor yn 2022
- fanylion aelodaeth bob Pwyllgor Cymdeithas Ddysgedig Cymru, gan gynnwys y Cyngor

Dywedodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol wrth Gymrodyr bod y Cyngor, yn ystod blwyddyn 2021/22 y Gymdeithas, wedi cynnal Adolygiad Llywodraethu oedd yn symleiddio'r broses lywodraethu, ac yn cynnig cyfle i fwy o Gymrodyr gymryd rhan yng ngwaith y Pwyllgorau.

Roedd polisi iaith Gymraeg newydd y Gymdeithas yn cael ei ddatblygu, a byddai'n disodli'r Polisi Dwyieithrwydd blaenorol. Roedd y Polisi yn fwy uchelgeisiol a chadarn, ac wedi cael ei ddrafftio gan staff, Cymrodyr a phartïon allanol i sicrhau ei fod yn addas ar gyfer Cymdeithas sy'n tyfu.

Roedd y Cyngor wedi diwygio Cod Ymddygiad y Gymdeithas, i sicrhau ei fod yn berthnasol i bob Cymrodyr ac nid aelodau'r Cyngor yn unig, fel oedd yr achos o'r blaen.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae llawer iawn o waith wedi cael ei wneud o ran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Doedd dim newidiadau wedi bod i'r tîm Gweithredol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Yn eu cyfarfod ym mis Mehefin 2021, gwahoddodd y Cyngor yr Athro Ambreena Manji i gael ei gyfethol i'r Cyngor. Doedd dim newid i weddill aelodau'r Cyngor.

Fe wnaethom estyn gwahoddiad i'r holl Gymrodyr gyflwyno ceisiadau i ymuno â dwy swydd ar y Cyngor ym mis Chwefror 2022. Derbyniodd y swydd Clerc ddau gais, ac fe gafodd Dr Sally Davies a'r Athro Iwan Morus eu hailbenodi i'r Cyngor am ail dymor heb fod angen pleidlais.

Estynnodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol ddiolch i Ambreena am gytuno i weithio gyda'r Gymdeithas, gan longyfarch Dr Davies a'r Athro Morus ar gael eu hail-ethol.

Estynnodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol ddiolch i'r holl Gymrodyr oedd wedi gwasanaethu ar y Pwyllgorau, a chynghori y gallai manylion holl aelodau'r Pwyllgor gael eu canfod yn y papur. Nodwyd mai un o'r ychydig fanteision a gafwyd yn ystod y pandemig oedd yr angen i hwyluso cyfarfodydd rhithwir. Mae hyn wedi caniatáu i'r Gymdeithas benodi aelodau rhyngwladol i'r Pwyllgorau Llywodraethu, a hynny am y tro cyntaf.

O ganlyniad i'r adolygiad Llywodraethu, roedd gan y Pwyllgor Cyllid lai o aelodau o'r tîm Gweithredol, ac roedd wedi penodi Dr Sally Davies yn Is-gadeirydd. Fe wnaeth yr Ysgrifennydd Cyffredinol longyfarch Dr Davies ar ei phenodiad.

Ymunodd yr Athro Lisa Collins a'r Athro Mark Rees â'r pwyllgor o Leeds ac Awstralia, ac estynnwyd diolch iddynt am eu cyfraniadau.

Yn yr un modd, symleiddwyd y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol, i leihau nifer o aelodau'r tîm Gweithredol ar y Pwyllgor.

Fe wnaeth y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol groesawu'r Athro Loredana Polezzi a'r Athro Raluca Radulescu sydd wedi eu lleoli yn America a Bangor yn y drefn honno. Roedd y Gymdeithas yn ddiolchgar iawn am eu cyfraniadau.

Roedd Pwyllgor y Gymrodoriaeth wedi penodi Syr Mansel Aylward i gynrychioli Cymrodyr C1. Estynnodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol ddiolch i Syr Mansel am gytuno i ymuno â'r pwyllgor.

Doedd dim newidiadau wedi bod i aelodaeth y Pwyllgor Penodiadau Llywodraethu. Fodd bynnag, yn dilyn yr Adolygiad Llywodraethu, roedd y Pwyllgor wedi cael ei ailenwi fel y Pwyllgor Goruchwylio Llywodraethu.

Estynnodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol ddiolch i Gynrychiolwyr Prifysgol y Gymdeithas (URLS), oedd wedi ateb yr alwad i weithio gyda'r Gymdeithas y llynedd. Y rhain oedd:

- Yr Athro Eleri Prys
- Yr Athro Venkat Kanamarlapudi
- Yr Athro Huw Summers
- Yr Athro Ann Agar
- Yr Athro Chris Taylor
- Yr Athro Marian Ludgate
- Yr Athro Raluca Radulescu
- Dr Louise Bright
- Yr Athro Maria Hinfelaar
- Yr Athro David Brooksbank

Gwnaeth yr URLS lawer iawn o waith i gefnogi'r Gymdeithas yn eu priod sefydliadau. Roedden nhw wedi bod yn ddylanwadol wrth helpu'r Gymdeithas i gyflawni'r cydbwysedd agos rhwng y rhywiau mewn enwebeion yng nghylch yr etholiad, ac roedd y Gymdeithas yn ddiolchgar am eu holl ymdrechion.

Mynegodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol ei ddiolch i'r Athro Helen Wilcox a oedd wedi ymddiswyddo fel URLS ym Mangor, a'r Athro Maxine Pendlington a oedd wedi camu lawr fel URLS dros Glyndŵr.

**CAFODD** a **NODODD** yr aelodau bapur AGM/2022/02, Materion Llywodraethu, Swyddogion, y Cyngor a Phwyllgorau: Aelodau hen a newydd.

## 6. **Cyhoeddi Cymrawd er Anrhydedd Newydd, y Fonesig Sue Ion**

### **Cyflwynodd yr Athro Micheal Charlton, y Cymrawd er Anrhydedd newydd, y Fonesig Sue Ion**

Roedd y Fonesig Sue Ion wedi gwneud cyfraniad eithriadol i fyd dysgu, gan ragori yn ei maes drwy rolau arweinyddiaeth Genedlaethol a Rhyngwladol. Cafodd ei chydnabod yn rhyngwladol am ei harbenigedd, ei chyfraniadau at bolisi ynni, ac at y defnydd diogel ac effeithlon o bŵer niwclear.

Fel Cyfarwyddwr Technoleg yn BNFL, bu'n arwain dros 1,000 o wyddonwyr a pheirianwyr gyda buddsoddiadau blynyddol dros £100m. Adeiladodd y Fonesig Ion gysylltiadau ymchwil academaidd cryf yn y DU ac ar lefel rhyngwladol, gan ymgysylltu'n weithredol i lywio polisi'r llywodraeth ar lawer o Bwyllgorau a grwpiau cynghori.

Cafodd lawer o ganmoliaeth am ei gwaith, ac roedd y Fonesig Ion wedi cael ei hanrhydeddu gan gyfoedion yn yr Academi Beirianneg Frenhinol, y Gymdeithas Frenhinol, wedi cael ei gwneud yn Gymrawd er Anrhydedd y Sefydliad Ffiseg ac erbyn hyn, yn Gymrawd Cymdeithas Ddysgedig Cymru.

#### **Anerchodd y Fonesig Sue y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol:**

“Mae yn anrhydedd fawr i mi gael eich gwahoddiad i fod yn Gymrawd er Anrhydedd gyda eich corff hanesyddol ac enwog a mae yn bleser i mi ei dderbyn. Diolch yn fawr.”

“It is a great honour for me to receive your invitation to become an Honorary Fellow of your historic and famous body and I am delighted to accept it.

“It came as a great, but very pleasant surprise; especially give the numerous famous citizens of Wales who have received the honour in the past.

“Although not a native of Wales myself, my connections go back for my entire life. My godparents were Mary and Robert Gough-Roberts native of Rhos-on-Sea in North Wales and my family spent most summers of my childhood enjoying the wonderful coastline and facilities of Rhos and Llandudno while taking advantage of their hospitality.

“My sister-in-law, Mary Ion, nee Griffiths and now a resident of Australia has never forgotten her Welsh roots and still speaks Welsh with a local club of similar émigrés. Her brother David Griffiths is the well-known Welsh portrait painter who has paintings of famous Welsh politicians and others in the National Gallery and one of Prince Charles in the City Hall in Cardiff which I was delighted to see while opening an event for the Royal Society designed to establish better links between Industry and the great Welsh academic Institutions. This led to a follow up UK wide ‘Transforming Our Futures’ event in Newport initiated by The Royal Society which I was pleased to host, to celebrate the great advances in photonics technologies where the combination of the Academic Strengths and Industry Investment in South Wales have created a world leading technology hub and cluster.

“I served in the nuclear industry for over 30 years before starting to cover energy and science and engineering issues especially the pipeline of future talent more widely. It has been my great pleasure to serve on key advisory and policy committees of the Royal Society and the Royal Academy of Engineering with Welsh Fellows of both National Academies hopefully helping to make difference to the wider UK as well as to Wales.

“It has been my great honour over these past few years to have served as a member of the Wales Chief Scientific Advisor’s Science Advisory Committee Chaired by Syr John O’Reilly and to have played a role in advising the Welsh Government Officials on the steps which can be taken to improve the prospects for Nuclear Energy and Nuclear Medicine investment in North Wales. It has also been my pleasure to have worked with key academics at the University of Bangor on the importance of nuclear energy.

“Once again my sincere thanks. Diolch yn Fawr.”

## **7. Ethol Cymrodyr Newydd**

Cyflwynodd yr Is-lywydd ar gyfer y Dyniaethau, y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol, yr Athro Helen Fulton, y 66 o Gymrodyr newydd a oedd wedi'u hethol i'r Gymdeithas yn ystod cylch etholiad 2021-22.

Croesawodd yr Is-lywydd y Cymrodyr newydd, a nododd ei bod yn bleser gweld y fath ehangder o dalent yn eu plith.

Roedd hi wedi bod yn flwyddyn arloesol i'r Gymdeithas, gyda bron i 50% o'r holl enwebiadau yn cael eu derbyn yn ferched, ac roedd yr un mor braf gweld tuedd debyg yng nghanlyniadau'r etholiad.

Estynnodd yr Is-lywydd y Llywydd i wneud datganiad.

Anerchodd y Llywydd y Cymrodyr newydd, gan nodi: "Yn enw Cymdeithas Ddysgedig Cymru a thrwy ei hawdurdod, fe'ch derbyniaf chi yn Gymrodyr y Gymdeithas".

Cyflwynodd yr Is-lywydd y Cymrodyr Newydd:

Yr Athro Sondipon Adhikari  
Yr Athro Davina Allen  
Mr Pedr ap Llwyd  
Yr Athro Rachel Ashworth  
Yr Athro Duncan Baird  
Yr Athro David Beerling  
Dr Carol Bell  
Yr Athro Farah Bhatti  
Yr Athro Stéphane Bordas  
Yr Athro Paul Boyle  
Ms Louise Casella  
Yr Athro Sin Yi Cheung  
Yr Athro Peter Collins  
Yr Athro Elaine Crooks  
Yr Athro Richard Day  
Dr Robert Deaves  
Yr Athro Stefan Doerr  
Yr Athro Iain Donnison  
Dr Cameron Durrant  
Yr Athro David Egan  
Yr Athro Martina Feilzer  
Yr Athro Francis Griffiths  
Yr Athro Judith Hall  
Yr Athro Christopher Hancock  
Rev Dr Sally Harper

Yr Athro Kamila Hawthorne  
Mrs Nadia Hikary-Bhal  
Yr Athro Lucy Huskinson  
Yr Athro Uzo Iwobi  
Dr Layla Jader  
Syr Simon Jenkins  
Yr Athro Geraint Jewell  
Yr Athro E Yvonne Jones  
Yr Athro Julia Jones  
Dr Kathryn Jones  
Yr Athro Lesley Jones  
Yr Athro Rhys Jones  
Yr Athro Frances Knight  
Dr Anju Kumar  
Yr Athro William Lee  
Yr Athro Colin McInnes  
Yr Athro Rebecca Melen  
Yr Athro Kathryn Monk  
Mr Steve Morris  
Yr Athro Olivette Otele  
Ms Rachel Podger  
Yr Athro Dipak Ramji  
Yr Athro Omer Rana  
Yr Athro Robert Read  
Yr Athro Susan Rosser  
Yr Athro Andrew Rowley  
Yr Athro Bettina Schmidt  
Dr Hamsaraj Shetty  
Yr Athro Steven Smith  
Yr Athro Stuart Taylor  
Yr Athro Thora Tenbrink  
Yr Athro David W Thomas  
Yr Athro Howard Thomas  
Yr Athro Karin Wahl – Jorgensen  
Yr Athro Roger Whitaker  
Dr Eryn White  
Yr Athro Paul Wigley  
Yr Athro Charlotte Williams  
Dr Goronwy Wynne  
Dr Roland Wynne  
Dr Emma Yhnell

Gorffennodd y Llywydd drwy ddweud “Fel Cymrawd a etholwyd i Gymdeithas Ddysgedig Cymru, byddwch yn addunedu i wneud popeth o fewn eich gallu i gynnal dibenion ac enw da’r Gymdeithas.”

## **8. Uchafbwyntiau’r Flwyddyn**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr gyflwyniad byr o rai o uchafbwyntiau gwaith y Gymdeithas dros y flwyddyn ddiwethaf. Nododd bod llawer o'r gwaith wedi digwydd cyn iddi ymuno â'r Gymdeithas ym mis Chwefror. Estynnodd y Prif Weithredwr ddiolch i'r tîm staff a'r Cymrodyr niferus oedd wedi eu cefnogi mewn cyflwyno ystod mor wych o weithgareddau.

Y datblygiad mwyaf i'r Gymdeithas y llynedd oedd derbyn ychydig dros £100k o gyllid gan CCAUC, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Roedd y cyllid o ganlyniad i sefydlu partneriaeth newydd ar gyfer datblygu ymchwilwyr gyda CCAUC, a chafodd ei neilltuo i gwmpasu'r meysydd eang canlynol:

- Datblygu’r rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar ymhellach
- Mentrau cefnogi ar gyfer ymchwilwyr canol gyrfa ac uwch ymchwilwyr
- Darparu grantiau bach ar gyfer ceisiadau ymchwil cydweithredol
- Cryfhau llais Cymru mewn partneriaethau strategol allweddol
- Dathlu rhagoriaeth a chynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o ymchwil

Roedd yr arian yn cynnwys tua thraean o incwm y Gymdeithas, ac wedi ariannu swm sylweddol o weithgarwch. Roedd dau aelod newydd o staff wedi'u penodi i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r gwaith hwn, sef Cathy Stroemer a Barbara Ibinarriaga Soltero. Anogwyd y Gymrodoriaeth i gymryd rhan yn y maes gwaith pwysig hwn i'r Gymdeithas, sy'n tyfu.

Cyflwynodd y Prif Weithredwr dri phrif weithgaredd wedi'u hariannu drwy grant CCAUC, gan nodi nad oeddent yn brosiectau annibynnol. Er mwyn bodloni amcanion a gytunwyd â CCAUC, dywedodd y Prif Weithredwr bod yr holl weithgareddau maen nhw wedi'u hariannu wedi'u cynllunio i gyflawni nodau'r Gymdeithas ymhellach, a chefnogi ein gwaith presennol.

### **1) Rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar**

Gyda'r cyllid gan CCAUC, roedd y Gymdeithas wedi parhau i dyfu'r Rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar, manteision y Gymdeithas iddynt, a'r gwerth roedd yn ei ddarparu i'w haelodau a thu hwnt.

Roedd y rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar wedi'i anelu at unrhyw un a oedd yn dechrau, neu a oedd wedi dechrau yn ddiweddar, gyrfa ym maes ymchwil neu weithio gydag ymchwilwyr. Roedd y rhan fwyaf o'r aelodau'n gweithio ym maes addysg uwch, ond roedd y rhwydwaith ar agor hefyd i'r rhai yn y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector. Roedd am ddim i ymuno ond yn gyfnewid, gofynnodd y Gymdeithas i aelodau gyfrannu at fywyd y rhwydwaith drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau, a bod yn agored i gydweithio ag eraill ar draws Cymru.

Prif fantais y rhwydwaith oedd yn ei natur Cymru gyfan a thrawsddisgyblaethol, gan roi cyfle i Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar gysylltu â'r rhai y tu hwnt i'w cydweithwyr sefydliadol, a gydag arbenigedd eang a phrofiad Cymrodyr y Gymdeithas.

Roedd gan y rhwydwaith dros 800 o danysgrifwyr gweithredol, ac roedd gan tua 570 ohonynt gysylltiad hysbys ag un o'r 8 Prifysgol yng Nghymru. Roedd gwaith aelodau'r Rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar yn rhychwantu 97 o bynciau, gyda chydbwysedd da rhwng pynciau STEM a HASS.

Dros y flwyddyn, roedd y Gymdeithas wedi cynnal nifer o weithdai ar-lein a sesiynau rhwydweithio, a oedd yn boblogaidd iawn. Gan gynnwys:

- Cynnal iechyd meddwl ar draws y maes academaidd
- Dau weithdy cyllido mewn partneriaeth ag Aberystwyth:
  - 1) Ymgeisio am Grantiau a'r
  - 2) Prif Gamgymeriadau a Steil Ysgrifennu Grantiau
- Boreau Coffi Anffurfiol i drafod effaith Covid-19 ac i gael mewnbwn aelodau'r rhwydwaith i ddiwyddiadau rhwydweithio yn y dyfodol

Roedd y Gymdeithas wedi rhedeg ei Chynhadledd Ymchwil ar-lein gyntaf ar gyfer Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar hefyd. Fe wnaeth y digwyddiad fynd i'r afael â'r 'argyfwng hinsawdd ac anghydraddoldebau cymdeithasol', ac anogodd ddeialog ryngddisgyblaethol ymhlith ymchwilwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Roedd y digwyddiad yn dilyn uwchgynhadledd hinsawdd COP 26 yn Glasgow, ac roedd cysylltiad rhwng COP Cymru, gan arddangos gwaith dros 20 o Ymchwilwyr Gyrfa Cymru.

Fe wnaeth y Gynhadledd ddenu ceisiadau gan holl brifysgolion Cymru, ac roedd gwaith y siaradwyr yn cwmpasu disgyblaethau ar draws y pynciau STEM, dyniaethau, y celfyddydau a'r gwyddorau cymdeithasol.

Estynnodd y Prif Weithredwr ddiolch i bawb a gymerodd ran, roedd yn gynhadledd lwyddiannus gyda mwy nag 80 o gyfranogwyr a fideos o'r diwrnod, ochr yn ochr â thystiolaethau gan gyfranogwyr, sydd ar gael ar sianel a gwefan youtube y Gymdeithas.

Fel rhan o gynnig y Gymdeithas i CCAUC ar gyfer cyllid y flwyddyn nesaf, ac ochr yn ochr â datblygu'r strategaeth, roedd y Gymdeithas yn gobeithio parhau i adeiladu ar lwyddiant y rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar, i ddarparu rhaglen wych o ddiwyddiadau, cefnogaeth, a gweithgareddau rhwydweithio i ddatblygu ymchwilwyr ar bob cam gyrfa.

## 2) Grantiau gweithdai ymchwil

Yn 2022, peilotiodd y Gymdeithas gynllun grantiau bach ar gyfer Gweithdai Ymchwil Astudiaethau Cymru. Gallai sefydliadau yng Nghymru wneud cais am hyd at £1000 i hwyluso rhyngweithio a phartneriaeth ddeallusol a chreadigol, rhwng ymchwilwyr o ddisgyblaethau gwahanol ac o amrywiaeth o sefydliadau. Cafodd y cynllun ei ddylunio ar gyfer ceisiadau a oedd yng nghanam cynnar eu datblygiad - gan gefnogi cyfarfodydd a digwyddiadau i drafod syniadau am feysydd gwaith, yn hytrach nag i gyflwyno canfyddiadau'r gwaith roeddent wedi ei orffen.

Derbyniodd y Gymdeithas geisiadau gwych, a dyfarnwyd grantiau gwych i 7 prosiect gwahanol gan gynnwys:

- prosiect amlddisgyblaethol sy'n archwilio naratifau o newid gwledig yng Nghymru,
- prosiect sy'n archwilio pa mor gyffredin yw tatŵs asgell dde eithafol yng Ngharchar y Parc,

- prosiect cydweithredol sy'n ceisio ehangu Mynediad Mewnffudwyr Rhyngwladol at Addysg Cyfrwng Cymraeg/Dwyieithog Statudol.

Roedd crynodebau o'r saith prosiect ar gael ar wefan y Gymdeithas.

Cynhaliwyd adolygiad o'r peilot, ac fe ddangosodd bod y cynllun yn llwyddiannus mewn hybu ceisiadau ymchwil ar y cyd, gyda phrosiectau yn defnyddio'r gwaith wedi ei gwblhau yn defnyddio'r grant, i wneud cais am arian ychwanegol gan sefydliadau eraill, gan gynnwys grant gan NERC am £10k.

Roedd effaith arall yn cynnwys:

- creu perthnasoedd newydd cryf ar draws disgyblaethau academiaidd, ac atgyfnerthu a datblygu perthnasoedd sy'n bodoli eisoes gyda phartneriaid allanol
- datblygu rhywfaint o ffyrdd o feddwl newydd cyflym a radical, gan gynnwys newidiadau mewn ffocws ymchwil i rai cyfranogwyr academiaidd
- datblygu'r ymddiriedaeth a'r cyfathrebu sy'n hanfodol yn ystod y cyfnod sylfaenol o gydweithio

Roedd yr adolygiad yn dangos hefyd, bod awch i redeg y cynllun eto a'i ehangu i feysydd gwaith newydd. Roedd y cynllun yn cyd-fynd yn dda â'r cytundeb partneriaeth â CCAUC, am ei fod yn cefnogi cydweithrediadau ymchwil ar draws Cymru. Felly, roedd y Cynllun Cyllido Gweithdai Ymchwil diwygiedig, wedi lansio cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol, gyda'r cyllid gan CCAUC yn caniatáu i'r Gymdeithas ehangu'r cynllun i dri gwahanol linyn o gyllid.

- Astudiaethau Cymru
- Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar
- HASS.

Roedd meini prawf y cais wedi'u diweddarau i hyrwyddo Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, gyda phroses i fonitro data ymgeiswyr wedi'i sefydlu i sicrhau bod y rhaglen yn cyrraedd amrywiaeth o ymgeiswyr, gan gynnwys y rhai o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

### 3) Cyfarfodydd byrddau crwn i drafod arloesi

Roedd y Gymdeithas yn cynnull rhaglen o weithgareddau i helpu i lywio a gwella polisiau ac arferion arloesi yng Nghymru. Roedd y rhaglen yn cael ei harwain gan yr Athro Rick Delbridge, ymgynghorydd arbennig i'r Llywydd ar ymchwil ac arloesi.

Roedd hon yn rhaglen amserol, o ystyried cyhoeddiad diweddar Strategaeth Arloesi BEIS ar gyfer y DU, Bil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar, pwysigrwydd cynyddol agenda ar sail lleoedd, ac ymrwymiad adolygiad gwariant llywodraeth y DU i gynyddu gwariant Ymchwil a Datblygu i £20 biliwn dros y 3 blynedd nesaf.

Roedd Llywodraeth Cymru yn adolygu ei pholisiau arloesi, ac yn datblygu strategaeth arloesi draws-lywodraethol integredig newydd. Byddai Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) yn newid y dirwedd ar gyfer ymchwil ac arloesi o fewn Addysg Uwch.

Mae'r rhaglen wedi cynnwys cyfarfodydd bord gron misol gydag arweinwyr meddwl ac ymarferwyr yn y maes, gan gynnwys rhai o Gymrodyr y Gymdeithas. Estynnodd y Prif Weithredwr ddiolch i'r holl Gymrodyr hynny a gymerodd ran am eu mewnbwn.



Edrychodd y cyfarfod bord gron gyntaf ar strategaethau arloesi i Gymru, gyda thrafodaethau dilynol yn seiliedig ar y themâu canlynol:

- Gwersi o genhedloedd bach arloesol
- Rôl parciau gwyddoniaeth
- Cysyniad y comin arloesi
- Cenhadaeth ddinesig ym maes arloesi
- Arloesi yn y trydydd sector

Roedd y Gymdeithas wedi gweithio gyda rhanddeiliaid newydd, a'r adborth a gafwyd oedd bod y gofod a ddarparwyd ar gyfer trafodaethau agored a gonest Chatham House ar y themâu hyn wedi bod yn hynod werthfawr. Roedd adroddiadau dienw o bob cyfarfod bord gron ar gael ar wefan y Gymdeithas, a byddai canfyddiadau'n cael eu coladu er mwyn nodi themâu allweddol ac ystyried argymhellion i helpu i lywio a gwella strategaethau arloesi a'r amgylchedd arloesi yng Nghymru.

Gorffennodd y Prif Weithredwr drwy ddiolch i'r holl Gymrodwr a fu'n rhan o helpu'r Gymdeithas i gyflawni ei gwaith, ac anogodd bob Cymrawd i ymgysylltu â'r Gymdeithas os hoffent gyfrannu yn y dyfodol.

## **9. Cyhoeddi'r Cymrawd Newydd Er Anrhydedd, Charles Burton**

Cyflwynodd yr Is-lywydd STEMM, y Cymrawd er Anrhydedd, Charles Burton.

Mae Charles Burton wedi bod yn un o brif ffigurau celf Cymru. Yn ystod ei gyfnod fel myfyriwr yng Nghaerdydd, cafodd ei gydnabod yn ffigwr canolog yng Ngrŵp dylanwadol y Rhondda, a phrynwyd ei waith ar gyfer casgliadau cyhoeddus. Yn y Coleg Celf Brenhinol, roedd yn cael ei ystyried yn un o'r rhai mwyaf bywiog mewn cenhedlaeth a oedd yn cynnwys Frank Auerbach a Peter Blake. Yn 24 oed, enillodd Fedal Aur yr Eisteddfod Genedlaethol.

Trwy gydol y 1960au, bu'n Bennaeth Paentio yng Ngholeg Celf Lerpwl, pan oedd yn ganolbwynt i'r gwrthryfel diwylliannol a gynhyrnod y Beatles a Beirdd Lerpwl. Dychwelodd i Gymru ym 1970, a chwaraeodd rôl greadigol fel Pennaeth Celf a Phaentio ym Mhrifysgol Morgannwg, lle'r oedd yn gwasanaethu fel athro ysbrydoledig wrth barhau i gynhyrchu gweithiau gwyth.

Dangosodd ystod ei baentiadau y dylanwadau rhyngwladol ar Siarl yn ystod cyfnod y gwasanaeth Cenedlaethol a dreuliodd yn yr Aifft ac yn ddiweddarach yn Ewrop, yn fwyaf nodedig Ffrainc. Mae ei luniau o'r Rhondda yn ffurfio casgliad trawiadol o waith. Mae ei gyfres o baentiadau o'r dynion ambiwlans arwrol yn ystod y rhyfel yn cyfleu'n ingol yr ymdeimlad ofnadwy o erchyllterau rhyfel.

Mae'n Gymro angerddol yn ei ymwybyddiaeth ddiwylliannol gyfoethog o'r cymoedd wrth siapio Cymru gyfoes, ac mae wedi ymrwymo i ddangos arwyddocâd diwylliannol a chymdeithasol y dimensiwn rhyngwladol ac Ewropeaidd i Gymru a'i datblygiad presennol/yn y dyfodol.

Anerchodd Charles Burton y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol:

:

“Thank you very much.

“As a painter, a practitioner I feel particularly honored to be awarded this Honorary Fellowship. I began 88 years ago. I used to be taken to see my great grandmother and she had a tin chest in her bay window. In order to keep me entertained, I was given a little piece of paper and a pencil, and I made drawings. These were very important and probably caused the whole of my future.

“I remember two questions that I asked when I was there as a child. I asked my father how can I draw a mountain and how can I draw a tree? If he were still alive, I would ask him the same questions now.

“The other questions was, I was dissatisfied with the pencil and paper. That was a more important question, it is like a four year-old complaining that the violin wasn't tuned properly. That was the main point of my time as a child. At the age of seven I went to Penyreglyn Junior Boys School, it was a wonderful school, we had the same teacher for the whole time we were there.

“They never spoke about the future, only about the next step. The proof of the power of Penyreglyn school is that in my group there was a nuclear physicist, a consultant anesthetist who worked for the Royal Family, a Harbormaster of Durban, the youngest headmaster in Britain, a trouble shooter for BP and me. Not bad, I think it proves that this little school in Treherbert had the right idea.

